NEWYDDION

# barcud

HAF 2023




# Neges gan **Steve Jones** Prif Weithredwr Grŵp



*Steve gyda Sue Thomas a Llŷr Edwards*

Rwy'n gobeithio eich bod yn cadw'n iawn a'ch bod yn mwynhau'r haf pan gewch chi'r rhifyn diweddaraf hwn o Newyddion Barcud. Mae cyfranogiad gan denantiaid wedi bod yn ardderchog yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae wedi bod yn braf cwrdd â chi yn ystod ymweliadau "Cwrdd â'r Tîm" â'n hystadau. Rydym wedi ystyried eich adborth ac wedi gwneud newidiadau i'r llythyr newyddion yn unol â'ch barn. Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r ffurflen sylwadau sydd ar ein gwefan i anfon unrhyw awgrymiadau. At hynny, gallwch ddefnyddio'r wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Barcud.

## Lleithder, Llwydni ac Anwedd – Arolwg Bodlonrwydd



| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | *A oedd yn gwrtais ac yn barod i helpu?* Were they courteous, polite and helpful? | ☺ | ☹ |
| 3 | *A gafodd popeth ei egluro i chi mewn modd hawdd ei ddeall?* Was everything explained to you in an easy to understand way? | ☺ | ☹ |
| 4 | *Os naddo, a oes angen mwy o wybodaeth arnoch?* If no, do you need more information? | ☺ | ☹ |
| 5 | *A gafodd unrhyw waith ei gyflawni ar ôl yr arolwg hwn?* Was any work carried out after this survey? | ☺ | ☹ |
| 6 | *Os do, a gafodd y gwaith ei gyflawni'n lân ac yn daclus?* If yes, was the work carried out in a clean and tidy way? | ☺ | ☹ |
| 7 | *A wnaeth y gwaith ddatrys y broblem?* Did the work resolve the issue? | ☺ | ☹ |

*Os naddo, nodwch sylwadau i egluro pam* - If no, please leave a comment explaining why

*Beth yw eich barn am yr holl broses?* - How do you feel about the whole process?

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | *A oedd yn brofiad cadarnhaol i chi fel tenant?* Was it a positive tenant experience? | ☺ | ☹ |

*Os nad oedd, nodwch pam* - If no, please state why not

*A oes yna unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r broses hon?* Are there any other comments you would like to make regarding this process?

Os ydych wedi cael gwaith yn ymwneud â Lleithder, Llwydni ac Anwedd yn ddiweddar, byddem yn gwerthfawrogi eich help i gael adborth ynghylch sut hwyl yr ydym yn ei chael arni. Cofiwch gwblhau'r arolwg pan fydd yn cyrraedd, a'i anfon yn ôl i ni yn Barcud.

Diolch am eich help.

## DIWRNODAU HWYL I'R TEULU

Rydym bob amser yn croesawu adborth gennych. Cofiwch gysylltu ar ôl y digwyddiadau hyn i roi gwybod i ni a wnaethoch eu mwynhau

**Theatr Byd Bychan, Aberteifi, SA43 1JY**
**Dydd Gwener 18 Awst 11am - 2pm**

**Chwarae Maesyfed, Llandrindod Wells, LD1 5HW**
**Dydd Mawrth 22 Awst 11am - 2pm**

**Clwb Rygbi Llambed, SA48 7JA**
**Dydd Gwener 25 Awst 11am - 2pm**

### Llun Clawr

**Nula Hula yn cael sbort yn un o Ddiwrnodau o Hwyl i'r Teulu Barcud a gynhaliwyd ym mis Mai. Mae dyddiadau'r digwyddiadau nesaf i'w gweld uchod. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno!**

## I Gysylltu â Barcud

### Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030
Pwyswch 1
Pwyswch 2

### Drwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

### Ar-Lein

barcud.cymru
Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' sydd ar ein gwefan

Barcud

@taibarcud

post@barcud.cymru (ymholiadau cyffredinol)

consent@barcud.cymru (unrhyw gwestiynau am gydsyniad)

# Neges gan Grŵp Monitro Barcud

Henffych gyd-denantiaid,

Mae'r aelodau (tenantiaid) wedi bod yn brysur yn ôl yr arfer yn gweithio gyda Barcud ar ystod eang o bethau. Ar wahân i'n gweithgareddau arferol, rydym wedi dewis y ceginau a gaiff eu gosod yn lle hen rai, wedi ailgychwyn cynnal ein harolygon dros y ffôn, wedi cynrychioli'r tenantiaid ar Grŵp Gorchwyl Lleithder, Llwydni ac Anwedd Barcud, ac wedi bod wrthi'n ddiweddar yn adolygu strategaeth newydd Barcud ynghylch Gwerth am Arian, a fydd yn cynnwys y Grŵp Monitro mewn prosesau tendro.



Ym mis Mawrth, gwnaethom gynnal cyfarfod cyntaf ein Fforwm Cyswllt y Tenantiaid ym Mhowys, a hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth. Gan ddechrau ym mis Gorffennaf, bydd y Grŵp yn rhoi mwy o gyfleoedd i chi gwrdd â ni y tu allan i'r digwyddiadau cyhoeddus. Bydd y cyfleoedd hynny ar-lein, a byddwch yn gallu siarad yn agored ag aelodau'r Grŵp. Bydd Barcud yn hysbysebu'r digwyddiadau ar ei dudalennau ar gyfryngau cymdeithasol, felly cadwch eich llygaid ar agor amdanynt; byddem wrth ein bodd yn cwrdd â chi. Byddwn hefyd yn mynychu Diwrnodau o Hwyl i'r Teulu Barcud, sy'n rhad ac am ddim, yn ystod yr haf.

Mae'r Grŵp Monitro hefyd wedi argymell y dylai aelodau o dimau Barcud, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr, ymgysylltu â thenantiaid yn y mannau lle maent yn byw. Os yw eich ystâd chi yn un o'r mannau hynny, byddwch yn cael hysbysiad ymlaen llaw. Enw'r digwyddiadau yw digwyddiadau "Cwrdd â'r Tîm". Byddant yn eich galluogi i gwrdd ag aelodau allweddol o staff a rhannu eich profiadau personol, a fydd yn helpu Barcud i wella ei wasanaethau. Cofiwch gefnogi'r digwyddiadau hyn, oherwydd bydd eich profiadau a'ch safbwyntiau o fudd i bob un o denantiaid Barcud. Mae eich profiadau a'ch barn yn amhrisiadwy.

Cymerwch ofal a dymuniadau gorau,
Paul Clasby (tenant)
Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud

Grŵp Monitro barcud Monitoring Group

# DEWCH I GYMRYD RHAN

**Wyddech chi?**

- **Mae gan Barcud Grŵp Tenantiaid sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol**
- **Tenantiaid sy'n rhedeg y Grŵp**
- **Mae tenantiaid o Geredigion a Powys yn perthyn i'r Grŵp**
- **Dyma'r unig Grŵp Tenantiaid annibynnol yng Nghymru**
- **Mae'n monitro ac yn cyd-lunio'r gwasanaethau a gewch gan Barcud**
- **Mae'n gweithio gyda Bwrdd Grŵp Barcud, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Rheolwyr**
- **Ei enw yw Grŵp Monitro Barcud**

*Os hoffech gael gwybod mwy am y Grŵp, ei weithgareddau neu ffyrdd o gymryd rhan, cysylltwch â Sue Thomas neu Alisa Cakebread ar 0300 111 3030 neu drwy ebost: post@barcud.cymru*

# Offer Tunstall - Larymau Gwddf a Larymau Lifeline

Efallai fod gan lawer ohonoch larymau gwddf sy'n eich cynorthwyo i fyw'n annibynnol yn eich cartref eich hun.

Bydd newidiadau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt yn digwydd yn fuan:

- Bydd y newid o linellau ffôn analog i rai digidol yn digwydd erbyn diwedd 2025.
- Mae llawer o ardaloedd wedi dechrau symud i linellau digidol yn barod - dylai darparwr eich llinell ffôn gysylltu â chi i ddechrau trefnu newid eich llinell ffôn i un sy'n ddigidol.
- Bydd hynny'n effeithio ar larymau Lifeline annibynnol, oherwydd mae'n bosibl y bydd angen eu newid neu'u tynnu allan o'u llinell ffôn bresennol a'u plygio i mewn i gefn y llwybrydd Wi-Fi.
- Bydd yn effeithio hefyd ar y llinellau sy'n dod i mewn i gynllun tai gwarchod, ond dylai'r newid ddigwydd hyd at y prif flwch ffôn ym mhob cynllun - bydd Tunstall yn esbonio i'ch Cydlynydd Cynllun beth fydd yn digwydd o ran yr offer Tunstall Haven.
- Bydd angen i Lesiant Delta raglennu pob un o'r larymau Tunstall ymlaen llaw o bell - a bydd yn ddiolchgar am eich cymorth i roi prawf ar eich larymau pan fydd yn bryd gwneud hynny.



Peidiwch â phoeni; dim ond pan fydd rhywun yn cysylltu â chi y bydd angen i chi wneud rhywbeth. Cofiwch fod eich Cydlynydd Cynllun wrth law bob amser i helpu.

Gallwch gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid hefyd os byddwch yn cael galwad ffôn y mae angen eglurhad yn ei chylch.

# FAINT YR YDYCH YN EI WARIO?

### Ffan Cegin



**Amcangyfrif o'r gost flynyddol**

**£9.61***

### Ffan Gwresogi



**Amcangyfrif o'r gost flynyddol**

**£183.96**

Mae cael eich ffan echdynnu ymlaen yn y gegin a'r ystafell ymolchi yn defnyddio llai o drydan nag yr ydych yn ei feddwl. Mae hefyd o help mawr i ddelio â phroblemau llwydni ac anwedd mewn rhannau o'ch cartref, sy'n digwydd oherwydd stêm.

Fel y gwelwch, mae amcangyfrif o'r gost flynyddol yn fach iawn o gymharu â chost defnyddio sychwr gwallt neu ffan wresogi.

Ceisiwch ddefnyddio eich ynni'n ddoeth, arbed arian a gwella'r amgylchedd yn eich cartref.

*Amcangyfrif ar sail cost trydan sy'n £0.28 KW/h.*
**Cost ffan echdynnu, yn dibynnu ar yr hinsawdd a faint o bobl sy'n byw ar yr aelwyd.*

### Ffan Ystafell Ymolchi



**Amcangyfrif o'r gost flynyddol**

**£3.68***

### Sychwr Gwalt



**Amcangyfrif o'r gost flynyddol**

**£40.88**

# "DYMA DDYWEDOCH CHI, DYMA WNAETHOM NI"

Efallai eich bod yn cofio i ni ofyn i chi sôn wrthym am ein gwasanaethau, yn yr arolwg tenantiaid a phreswylwyr. Yn y canlyniadau a gawsom yn ôl, roedd yn amlwg bod yna chwe maes lle gallem wella. Felly, rydym wedi gwrando ar yr hyn a ddywedoch chi ac rydym wedi gwneud y canlynol:

## Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw

Erbyn hyn, rydym wedi cyflwyno system apwyntiadau ar gyfer gwaith atgyweirio, gan gynnig apwyntiadau yn y bore neu'r prynhawn.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Byddwn yn rhannu gwybodaeth am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fyddant wedi'u datrys a phan fydd modd i ni sôn am y gwersi a ddysgwyd. Ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lefel isel yw'r rhan fwyaf o achosion, felly'n aml gellir eu hatal yn fuan rhag gwaethygu. Weithiau, ni allwn rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi os yw'r broblem heb ei datrys, oherwydd mae'n bosibl bod angen casglu tystiolaeth neu fod asiantaeth arall megis yr heddlu'n arwain yr achos os yw'n broblem ddifrifol. Gofynnwn i chi fod yn amyneddgar yng nghyswllt yr achosion hynny.

## Taliadau gwasanaeth

Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb am daliadau gwasanaeth wedi ailddechrau ar ôl Covid. Gallwch ofyn cwestiynau ynghylch sut y caiff y tâl ei gyfrifo.

## Cyfathrebu a chysylltu

1. Yn awr, byddwn yn ymdrin â'ch galwadau yn eich dewis iaith: Cymraeg neu Saesneg. Bydd staff Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn y Drenewydd ac Aberystwyth yn ateb galwadau a bydd yr amseroedd aros yn fyrrach.
2. Roeddech am gael tudalen i blant yn y llythyr newyddion – ac rydych wedi'i chael! Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'r plant sydd yn eich teulu gymryd rhan yn y cystadlaethau.
3. Mae gan y llythyr newyddion enw newydd, sef Newyddion Barcud.

## Cynhwysiant digidol

Yn ôl yr adborth, mae ein gwefan yn rhy gorfforaethol, nid yw'n cael ei diweddaru'n ddigon aml ac rydych am weld gwybodaeth am ddatblygiadau sydd ar ddod. Rydym wrthi'n gwneud y newidiadau hynny! Mae 'Fy nghyfrif' yn ei ôl ar gyfer tenantiaid yn ardal Powys. Mae hynny wedi arwain at drafodaeth wych ac mae rhagor o bethau yn yr arfaeth – cewch wybod mwy cyn bo hir!

## Cynnwys tenantiaid

Fydd dim 'Diwrnod Mawr Allan' eleni – yn ôl eich adborth, byddai digwyddiadau llai o faint y mae'n haws mynd iddynt yn well. Felly, rydym wedi trefnu pum digwyddiad llai o faint o gwmpas Powys a Cheredigion i'w gwneud yn haws i chi eu mynychu. Roedd y ddau ddigwyddiad cyntaf ym mis Mai yn llwyddiannus iawn – gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i un yn ystod gwyliau'r haf.

Mae pob un o'ch awgrymiadau yn mynd i Grŵp Monitro Barcud, sy'n sicrhau ei fod yn rhannu eich barn â'r uwch-reolwyr a'r Tîm Arwain.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Barcud yn anfon holiadur at bob tenant er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth gywir gennym, yn y ffordd gywir ac yn brydlon.

Cofiwch lenwi'r holiadur – mae'n hollbwysig eich bod chi a'n bod ni'n cael y wybodaeth briodol.



# Cyllid gan y Loteri i BROSTA

Mae Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Broteifi wedi bod yn brysur yn gwario'r £10,000 a gafodd gan y Loteri Genedlaethol y llynedd. Mae wedi bod yn trefnu ystod o weithgareddau, gan gynnwys tripiau i Amgueddfa Caerfyrddin, i Bontarfynach ar y trên ac i ganolfan arddio Penrallt. Mae wedi bod yn cynnal digwyddiadau yn lolfa'r cynllun, sy'n cynnwys digwyddiad The Golden Oldies a digwyddiad gyda Jez Danks. Mae hefyd wedi prynu dodrefn ychwanegol i'r ardd fel y gall pawb fwynhau'r ardd gymunedol, ac wedi prynu lluniau, clustogau a fasys newydd ar gyfer y lolfa er mwyn ei gwneud yn lle mwy croesawgar.

Meddai Sonia Lawrence, Cadeirydd y Gymdeithas, "Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyllid hwn sy'n golygu bod y tenantiaid sy'n byw yma wedi cael cyfle i fwynhau gweithgareddau a chreu cyfeillgarwch a fydd yn para, heb boeni am y gost."





## HWYL YN Y FFORWM CYNLLUNIAU TAI GWARCHOD



Cawsom ddigwyddiad gwych arall ym Mhenrodyn, Aberaeron lle daeth tenantiaid o amryw gynlluniau gwarchod ynghyd i gymdeithasu. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau boreol hyfryd yn ein calendr ac maent yn ffordd wych o helpu pobl i fynd allan. Diolch yn fawr i:

**Sian Davies a Llinos Halgarth o 'Clinig Bach y Wlad' am eu cyflwyniad ar bwysigrwydd gofalu am eich traed.**

**Claire Thomas o 'Goldies Sing and Smile Cymru' am y sesiwn ganu!**

**Carwyn o Siop a Chaffi Llangeitho am y bwffe bendigedig.**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod, mae croeso i chi gysylltu â fi ar 0300 111 3030 neu siarad â'ch Cydlynydd Cynllun. Mae'n agored i bob tenant sy'n byw mewn llety gwarchod ar draws rhanbarth Barcud. Rwy'n edrych ymlaen at eich gweld y tro nesa'.

*Tess x*

# Pryd Perffaith!



## Caserol Selsig a Llysiau

**Yn gweini: 4**
**Cynhwysion:**
**1 winwnsyn**
**1 bagiaid o datws newydd bach yn eu tymor**
**1 pecyn o ffa gwyrdd**
**Selsig porc / llysieuol**
**Saws pasta tomato a pherlysiau**
**Caws wedi'i ratio**

Mae'r caserol selsig a thatws hwn mor rhad fel y gallech brynu selsig gwell heb fynd â'r gost i dros £1 y pen. Mae tomato a phupryn yn y saws, ond yn ddelfrydol dylech geisio ei weini gyda llysieuyn arall er mwyn ychwanegu at eich pump y dydd. Chwiliwch am ffrwythau a llysiau yn yr adran ddisgownt yn eich archfarchnad leol. Bydd yno lysiau amrywiol bob amser a fyddai'n cyd-fynd yn berffaith â'r caserol hwn! Gallwch hyd yn oed baratoi'r caserol hyd at gam 5 a gorffen ei baratoi ychydig cyn eich bod yn barod i'w fwyta.

- Ffrïwch y selsig, y winwnsyn a'r ffa gwyrdd a rhowch nhw mewn dysgl gaserol (gallwch dorri'r selsig yn ddarnau).
- Torrwch y tatws newydd yn eu hanner. Berwch nhw am 10 munud mewn dŵr a halen, draeniwch nhw a rhowch nhw yn y ddysgl gaserol.
- Arllwyswch y jar o saws pasta tomato a pherlysiau dros y cyfan.
- Pobwch am 20 munud – gwres: 180/Marc Nwy 4.
- Tynnwch y caserol allan o'r ffwrn a rhowch y caws wedi'i ratio ar ei ben.
- Rhowch y caserol yn ôl yn y ffwrn am 10 munud er mwyn i'r caws doddi'n bert!
- Gweinwch gyda llysiau a bara crystiog.

# Arolygon Dros y Ffôn

Daeth dau aelod o Grŵp Monitro Barcud i swyddfa Tŷ Canol yn y Drenewydd am ychydig oriau ddydd Mercher, 24 Mai i gynnal arolygon dros y ffôn gyda thenantiaid yr oedd eu system wresogi wedi cael ei hatgyweirio neu wedi cael gwasanaeth yn ddiweddar.

Cafodd cyfanswm o 81 o alwadau eu gwneud ac mae'r arolygon yn gyfrinachol. Caiff yr holl adborth ei roi i Dîm Arwain Barcud, a fydd wedyn yn adrodd yn ôl i Fwrdd Barcud.



Fel cyd-denantiaid ac fel aelodau o Grŵp Monitro Barcud, rhaid i ni sicrhau bod tenantiaid yn fodlon â'r gwaith sydd wedi'i gyflawni a rhaid i ni gael gwybod a oes ganddynt unrhyw bryderon neu sylwadau y gallwn eu rhannu â Barcud.

Os cawsoch chi alwad ac os gwnaethoch chi gymryd rhan, hoffem ddiolch i chi am roi adborth pwysig ac am wella'r gwasanaeth a ddarperir i denantiaid yn Barcud.

# Y Gystadleuaeth Arddio

**Cofiwch mai dydd Gwener, 11 Awst yw dyddiad cau'r gystadleuaeth arddio! Anfonwch eich lluniau atom cyn gynted ag sy'n bosibl.**

**Mae rhestr o'r holl gategorïau ar ein gwefan. Pob lwc!!**



# Credyd Cynhwysol – Mudo a Reolir

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn symud achosion Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith draw i Gredyd Cynhwysol o ddiwedd mis Awst 2023 ymlaen. Caiff y symud ei alw'n Fudo a Reolir, a dyma gam olaf y broses o symud y sawl sy'n hawlio budd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol.

Bydd yn cynnwys pawb yn y cam cyntaf:

- sy'n cael Credyd Treth Plant a/neu Gredyd Treth Gwaith; ac
- sy'n cael budd-dal etifeddol, er enghraifft Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, a Budd-dal Tai i rai o oedran gweithio

Pan fydd y Mudo a Reolir yng nghyswllt yr achosion Credydau Treth a grybwyllwyd wedi'i gwblhau, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau wedyn gyda phobl sy'n cael budd-daliadau etifeddol yn unig. Nod yr Adran yw symud 2.6 miliwn o achosion i Gredyd Cynhwysol erbyn diwedd 2024.

Os ydych yn cael Credydau Treth, byddwch yn cael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i'ch 'gwahodd' i hawlio Credyd Cynhwysol yn lle hynny – bydd yn anfon llythyr atoch o'r enw 'hysbysiad mudo'. Bydd y llythyr yn dweud wrthych bod eich hawl i gael Credydau Treth/budd-daliadau etifeddol ar fin dod i ben, ac y bydd gennych dri mis i gyflwyno hawliad/cais am Gredyd Cynhwysol er mwyn parhau i gael cymorth ariannol – peidiwch â'i anwybyddu!

Pan fydd yr achosion Credydau Treth (a'u budd-daliadau etifeddol cysylltiedig) wedi symud draw i Gredyd Cynhwysol, bwriedir cysylltu â'r achosion budd-daliadau etifeddol.

Cofiwch, pan fyddwch yn cael eich hysbysiad mudo, bydd gennych dri mis i newid i Gredyd Cynhwysol.

Peidiwch â phoeni os na fyddwch yn cael hysbysiad mudo/llythyr ym mis Awst 2023 – bydd y Mudo a Reolir yn dechrau ddiwedd mis Awst 2023 a bydd yn cymryd o leiaf 18 mis i'w gwblhau.

Os oes angen help a chyngor arnoch, cysylltwch â'r Tîm Cynnal yn Barcud ar 0300 111 3030 neu drwy ebostio post@barcud.cymru

## Yr Adran Gwaith a Phensiynau – Taliad Costau Byw i'r Anabl

Efallai fod gennych hawl i Daliad Costau Byw i'r Anabl, sy'n werth £150, os ydych yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol:

- **Lwfans Gweini**
- **Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer oedolion**
- **Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant**
- **Taliad Annibyniaeth Personol**

I gael y Taliad Costau Byw i'r Anabl, rhaid bod un o'r budd-daliadau hyn wedi'i dalu i chi ar gyfer 1 Ebrill 2023 (neu'ch bod wedi cael taliad yn nes ymlaen).

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael y Taliad Costau Byw gwerth £150 yn awtomatig rhwng 20 Mehefin 2023 a 4 Gorffennaf 2023.

barcud

## Cadwch y Dyddiad




## Cynhadledd Barcud i Denantiaid

ac i ddilyn

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

**Dydd Iau 21 Medi am 11am**


**Hafan yr Afon, Y Drenewydd SY16 2NZ**

I gael gwybod mwy a chadw eich lle, cysylltwch â Barcud

0300 111 3030

# Tudalen Y Plant

## Tŷ i'w dorri allan a'i greu




## Cystadleuaeth Arlunio

### CYFLE I ENNILL LLYFR COGINIO!

Tynnwch lun i ni o'r enw
**'Diwrnod gorau'r gwyliau'.**

Maint y llun – dim mwy nag A4

Dyddiad Cau: Dydd Gwener, 8 Medi 2023

Rhowch eich enw, cyfeiriad ac oedran yn glir ar gefn eich llun.




Anfonwch eich darlun at:
Alisa Cakebread, Barcud, Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL
Neu, dewch ag ef i un o'r diwrnodau hwyl i'r teulu yn ystod yr haf. Bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi yn rhifyn nesaf o Newyddion Barcud. Pob lwc!

# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)

Cafodd pob contract wedi'i drosi a phob contract enghreifftiol eu postio erbyn terfyn amser Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith wedi dechrau erbyn hyn ar gam nesaf Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) – ymarfer ymgynghori ac amrywio:-

Ein nod yw sicrhau bod gan bob un o'n tenantiaid yr un fersiwn o'n contract diogel, drwy gynnal proses amrywio a ganiateir gan y Ddeddf. I wneud hynny, rhaid i ni ymgynghori â phob tenant am y newidiadau arfaethedig.

Ein bwriad yw bod pob tenant yn cael "hysbysiad rhagarweiniol" gan Barcud ym mis Gorffennaf 2023. Bydd yr hysbysiad:

- ◊ yn eu hysbysu bod Barcud yn bwriadu rhoi hysbysiad amrywio (newid)
- ◊ yn egluro'r newid arfaethedig i'r contract – ei natur a'i effaith
- ◊ yn gwahodd tenantiaid i roi sylwadau ar yr amrywiad arfaethedig cyn pen 28 diwrnod.

Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a geir ac yn penderfynu a ddylem roi'r hysbysiad amrywio neu beidio.

Os byddwn yn gwneud hynny, bydd yr amrywiadau i gontractau'n dod i rym fis ar ôl i ni roi'r hysbysiad amrywio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddeddf newydd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddog tai neu'r Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0300 111 3030.

# Gerddi Gwych William Ainge Court!



Mae'r gwelliannau yn William Ainge Court yn y Trallwng yn edrych yn wych – ac mae'r gerddi a'r gwelyau blodau'n werth eu gweld!

Llongyfarchiadau i'r holl denantiaid sy'n gofalu am eu darn o dir eu hunain ac sy'n helpu yn yr ardaloedd cyffredin. Mae'r lle yn edrych mor hardd yn awr ac rydym yn gobeithio y byddwch yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth arddio eleni!



# Codi Arian Da

Yn ddiweddar, cyflwynodd tenantiaid yng Nghynllun Tai Gwarchod Barcud ym Mroteifi, Aberteifi siec o £1022 i Ann Evans o Ambiwlans Awyr Cymru. Cafodd yr arian ar gyfer yr achos gwerth chweil hwn ei godi drwy gynnal arwerthiant pen bwrdd a chael rhoddion lleol.